

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED  
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o Gyngor  
Cymuned Llansantffraed a  
gynhaliwyd am 7:30 pm ar nos  
Fawrth, 7fed Chwefror 2023 yn  
Ystafell Gefn Tafarn y White Swan**

**Minutes of a meeting of Llansantffraed  
Community Council  
held at 7:30 pm on Tuesday, 7<sup>th</sup>  
February 2023 at the Back Room of the  
White Swan Inn**

**Yn bresennol:**

Cadeirydd: y Cynghorydd Sheila Davies  
Y Cynghorwyr Keith Henson, Hywel Llŷr  
Jenkins, Dennis Morgan, Andrew  
Phillips, Gwenno Piette, Aled Roberts a  
Jim Rollinson.  
Mr Denfer Morgan (Clerc)

**Present:**

Chairman: Councillor Sheila Davies  
Councillors Keith Henson, Hywel Llŷr  
Jenkins, Dennis Morgan, Andrew Phillips,  
Gwenno Piette Aled Roberts and Jim  
Rollinson.  
Mr Denfer Morgan (Clerc)

**134 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Lodwick  
Lloyd YH am fethu a bod yn bresennol  
yn y cyfarfod.

**134 Apologies**

Councillor Lodwick Lloyd JP apologised  
for his inability to attend the meeting.

**135 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a  
gynhaliwyd ar 3ydd Ionawr 2023**

Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod  
Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 3ydd  
Ionawr 2023 fel rhai cywir.

**135 Minutes of the Meeting held on 3<sup>rd</sup>  
January 2023**

The Minutes of the Meeting of the Council  
held on 3<sup>rd</sup> January 2023 were confirmed  
as being a correct record.

**136 Materion yn codi o'r Cofnodion**

Nid oedd gwybodaeth o hyd ynghylch  
trwsio'r caead rhydd gan BT ar y Stryd  
Fawr.

Nodwyd nad oedd yna lawer o ddefnydd  
o'r Mannau Croeso Cynnes a drefnwyd  
drwy'r Sir. Er hynny, cytunwyd bwrw  
mlaen i edrych mewn i'r posibilrwydd o  
ddarparu ardal gofod cynnes yng  
Ngwesty'r Central oedd yn wag ar hyn o  
bryd gyda llygad ar y posibilrwydd y gellid  
fod yna alw am wasanaeth tebyg yn y  
dyfodol.

Roedd trafodaethau ar droed gyda  
Phennaeth yr Ysgol Gynradd ynghylch y  
prosiect gosod arwyddion o groeso ar y  
mynedfeydd i Lanon.

Dywedodd y Clerc ei fod mewn

**136 Matters arising from the Minutes**

There was still no information about BT  
repairing the loose service cover on Stryd  
Fawr.

It was noted that there was not a large  
use of the Warm Welcome Spaces  
arranged throughout the County. It was  
agreed to continue to investigate the  
possibility of providing a warm space area  
in the vacant Central Hotel with an eye to  
the possibility that such a service would  
be required in future.

Discussions were underway with the  
Headteacher of the primary school  
concerning the project of placing  
welcome signs at the entrances to  
Llanon.

The Clerk advised that he was in

trafodaethau gydag Ysgrifennydd Pwyllor Neuadd Bentref a Chae Chwarae Llanon ynghylch prynu tir ar gyfer estyniad y lle chwarae.

Roedd y Cynghorydd Henson wedi cysylltu gydag Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru ynghylch gosod arwydd ar y cyffordd rhwng y ffordd i Bennant a'r A487 yn hysbysu fod y ffordd yn anaddas i gerbydau mawr

Fe fyddai'r Clerc a'r Cynghorydd Andrew Phillips yn paratoi rhestr o'r lleoliadau roedd angen gosod biniau halen er mwyn codi'r mater gyda'r Cyngor Sir.

Gofynwyd i'r Clerc gysylltu gydag Enzos parthed perchnogaeth darn o dir sy'n ffinio gyda Stad Craig Ddu a lle mae coed mewn cyflwr gwael.

discussions with the secretary of Village Hall and playing Field Committee concerning the purchase of the land for the extension to the playground.

Councillor Henson stated that he had contacted the Transport Division of Welsh Government concerning the request that a sign be placed at the junction of Pennant road with the A487 indicating that the road was not suitable for large vehicles.

The Clerk and Councillor Phillips would be preparing a list of locations where there was a need to place salt bins for raising the matter with the County Council.

The Clerk was requested to contact Enzos with regard to the ownership of the piece of land adjoining Stad Graig Ddu on which trees in a bad condition are located.

**137 Arolwg Misol**  
Dywedodd y Cynghorydd Dennis Morgan nad oedd unrhyw beth i ddwyn i sylw'r Cyngor.

**137 Monthly Inspection**  
Councillor Dennis Morgan stated that there was nothing to bring to the attention of the Council.

**138 Archwiliad o'r Lle Chwarae**  
Dywedodd y Clerc fod adroddiad Wicksteed yn dilyn yr archwiliad statudol blynyddol wedi'i dderbyn a chytunwyd y byddai ef a'r Cynghorydd Phillips yn ystyried yr argymhellion ar gyfer eu gweithredu.

**138 Playground Inspection**  
The Clerk stated that the Wicksteed Report following the annual statutory inspection had been received and it was agreed that he and Councillor Phillips consider the recommendations for action.

**139 Materion Cyllidol  
PENDERFYNWYD**

**139 Finance Matters**  
It was **RESOLVED**

i) talu'r isod:  
Wicksteed (Arolwg Blynyddol y Man Chwarae) £122.40

i) to pay the following:  
Wicksteed (Annual Playground Inspection) £122.40

ii) nodi derbyn taliad o £48.78 oddi wrth National Grid parthed fforddfraint.

ii) to note the receipt of the Wayleave payment of £48.78 from National Grid.

**140 Ceisiadau am Gymorth Ariannol**  
Rhoddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau isod

**140 Applications for Financial Assistance**  
Consideration was given to the

am gymorth ariannol a  
**PHENDERFYNWYD**

i) cyfrannu'r symiau a nodwyd:

Pwll Nofio Aberaeron a'r Cylch - £300  
Mynwent Eglwys Llansantffraed yn 2023  
– £100  
Pwyllgor Neuadd Bentref a Chae  
Chwarae Llanon - £150  
Clwb Coffi Llanon - £50  
Clwb Ffermwyr Ifanc Llanddeiniol - 100

ii) peidio cyfrannu i'r canlynol:

Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion  
Cor Bois y Gilfach

undermentioned applications for financial  
assistance and it was **RESOLVED**

i) to contribute the sums as  
stated:

Aberaeron and District Swimming Pool -  
£300  
Llansantffraed Churchyard - £100  
Llanon Village Hall and Playing Field  
Committee - £150  
Llanon Coffee Club - £50  
Llanddeiniol Young Farmers Club - £100

ii) not to contribute to the  
following:

Ceredigion Young Farmers Clubs  
Bois y Gilfach choir

#### 141 Hyfforddiant Cymorth Cyntaf

Nodwyd fod yr sesiynau yn mynd yn eu  
blaen a bod pobl o bob oedran yn cael eu  
cymell i gael eu hyfforddi.

#### 141 First Aid Training

It was noted that sessions were being  
arranged and that all ages were being  
encouraged to be trained.

#### 142 Trefniadau ar gyfer cwrdd yn y dyfodol

Nodwyd na fyddai'r ystafell hon ar gael ar  
ôl y cyfarfod nesaf ac, yn unol â gofynion  
Deddf Llywodraeth Leol 2021 bod angen  
cynnig cyfle i bpbl ymuno o bell mewn  
cyfarfodydd, **PENDERFYNWYD** trafod y  
posibilrwydd o gwrdd yn yr Ysgol  
Gynradd gyda'r Pennaeth.

#### 142 Arrangements for future meetings

It was noted that this room would not be  
available after the next meeting and, in  
accordance with the requirements of the  
Local Government Act 2021 requiring the  
need to provide an opportunity for people  
to access meetings remotely, it was  
**RESOLVED** to discuss the possibility of  
using the Primary School with the  
Headteacher.

#### 143 Adroddiad y Cynghorydd Sir Keith Henson

Fe adroddodd y Cynghorydd Henson ar  
y canlynol:

- deliwyd gyda materion ward
- roedd wedi mynd i frechwast  
UAC a fu'n gyfle i gwrdd gyda'r  
sector amaeth a thrafod  
busnes
- trafodwyd y cyfleon i fusnesau  
lleol mewn cyfarfod diweddar o  
Tyfu Canolbarth Cymru
- roedd wedi cadeirio cyfarfod o  
TRaCC pan drafodwyd  
trafnidiaeth lleol

#### 143 Report of County Councillor Keith Henson

Councillor Henson reported on the  
following:

- various ward matters dealt with
- he had attended the FUW  
Breakfast which had been an  
opportunity to meet with the  
agriculture sector and discuss  
business
- opportunities for local  
businesses had been discussed  
at a recent meeting of Growing  
Mid Wales
- he had chaired a meeting of

- cafwyd gwybodaeth y gall fod cyfle i gymunedau ddarparu pwyntiau gwefru yng Ngham 3
- roedd yr Asiantaeth Priffyrdd wedi cytuno gosod dau arosfan bws newydd bob ochr i'r ffordd ger Cylch Peris a gobeithiwyd cyflawni'r gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

TRaCC when local transport issues had been discussed

- information had been received that there may be an opportunity for communities to provide ev charging points
- the Trunk Road Agency had agreed to place two new bus shelters both sided of the road in the vicinity of Cylch Peris and it was envisaged that the work would be completed in this financial year.

#### **144 Unrhyw Fater Cymwys Arall**

- a) Cytunwyd gofyn i'r Cyngor Sir delio gyda thyllau yn yr heol a chyflwr y cornel rhwng Stryd yr Eglwys a Heol y Dŵr
- b) Cytunwyd
- c) Ni ddeliwyd gyda'r coed yng Nghylch Peris gan y Cyngor Sir ac roeddent yn destun preyder o hyd i'r trigolion
- d) Derbyniwyd cynrychioliadau oddi wrth drigolion Cylch Peris nad oedd y rhes cyffiniol o anheddau ar stad Parc Peris wedi eu hadeiladu yn unol â'r cynlluniau a gymeradwy-wyd ac roedd hwn wedi arwain at edrych lawr ar y tai gerllaw yng Nghylch Peris;
- e) a gofynwyd i'r Clerc ddilyn hwn i fyny.
- f) Gofynwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r perchennog tir perthnasol ynghylch tyfiant yn gor-hongian ar lwybr troed y cyfeiriwyd ato yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:45pm

#### **144 Any Other Competent Business**

- a) It was agreed to request the County Council to attend to pot holes and the condition of the corner of Stryd yr Eglwys and Heol y Dŵr
- b) It was agreed to draw
- c) The trees at Cych Peris had not been dealt with by the County Council and were still a cause of concern for the residents
- d) Representations had been received from residents of Cylch Peris that the row of dwellings on the adjoining Parc Peris estate had not been constructed in accordance with the approved plans resulting in overlooking of nearby properties in Cylch Peris; and the Clerk was requested to follow this up
- e) The Clerk was requested to contact the relevant landowner in respect of overhanging growth on a footpath identified at the meeting.

The meeting concluded at 9:45pm